# YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
POST.YGGLLANGYNWYD@BRIDGEND.GOV.UK
WWW.YGGLLANGYNWYD.CYMRU
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701


16.07.2021

Annwyl Rieni a Gwarchodwyr,

Ar ddiwedd blwyddyn sydd wedi bod yn un hynod o brysur, hoffwn gymryd y cyfle hyn unwaith eto i ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

Wrth i ni dderbyn y canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar ddydd Gwener 09.07.21, hoffem rannu ein cynlluniau wrth i ni baratoi ar gyfer mis Medi 2021.

Gan fod gŵyl banc ychwanegol ar gyfer Jiwbilî Platinwm y Frenhines, mae blwyddyn academaidd 2021-22 wedi'i leihau o 195 diwrnod i 194 diwrnod. Mae Llywodraeth Cymru a Sir Pen-y-Bont wedi penderfynu y bydd ysgolion yn cymryd y gŵyl banc statudol hwn ym mis Medi 2021. Felly, hoffwn eich hysbysu o'r trefniadau canlynol ar gyfer dechrau Tymor yr Hydref yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.

**Trefniadau Dychwelyd**

| Diwrnod | Dyddiad | Dychwelyd | Dysgu Hirbell |
|---|---|---|---|
| Dydd Iau | 02.09.2021 | Gŵyl Banc Statudol | |
| Dydd Gwener | 03.09.2021 | Diwrnod Hyfforddi Athrawon (HMS) | |
| Dydd Llun | 06.09.2021 | Bl. 7 a Bl. 12 | Bl.8, Bl.9, Bl.10, Bl.11 a Bl. 13 |
| Dydd Mawrth | 07.09.2021 | Pawb yn ôl | |

Bydd Dydd Llun 06.09.2021 yn Ddiwrnod Lles, gan roi cyfle i ddysgwyr newydd ymgyfarwyddo â'r ysgol a deall y systemau iechyd a diogelwch sydd mewn lle. Darperir gweithgareddau lles yn ystod y dydd ar gyfer pob dysgwr, gyda sesiynau rhithiwr ar gyfer blynyddoedd 8 – 11 a blwyddyn 13.

Wrth i ddysgwyr gyrraedd yr ysgol bydd aelod o staff yn eu croesawu ac yn eu cyfeirio at yr ystafelloedd priodol.
Atgoffir dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol i beidio â chyrraedd y safle cyn **8.40am** ac os ydych yn cludo eich plentyn i'r ysgol, gofynnir i chi ddefnyddio lôn waelod y maes parcio (ac i beidio a chyrraedd cyn **8.40am**).

**<u>Pellter Cymdeithasol a Swigod Cyswllt</u>**

Yn unol â'r canllawiau cenedlaethol, dyma'r trefniadau a fydd mewn lle ym mis Medi ar hyn o bryd (gall y rhain newid yn ôl newidiadau cenedlaethol):

- Bydd staff yn cadw pellter o 2 fetr rhyngddynt â'i gilydd a'r dysgwyr lle bo modd
- Ni fydd yn orfodol i wisgo mwgwd mewn gwersi na mewn llefydd cyhoeddus
- Bydd angen i ddysgwyr barhau i wisgo mygydau ar fysiau'r ysgol
- Byddem yn parhau i weithredu tai bach gwahanol ar gyfer pob cyfnod allweddol

YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
POST.YGGLLANGYNWYD@BRIDGEND.GOV.UK
WWW.YGGLLANGYNWYD.CYMRU
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

- Byddem yn parhau i gadw'r ardaloedd gwahanol yn y ffreutur a'r neuadd ar gyfer amseroedd egwyl a chinio
- Bydd dosbarthiadau yn cael eu gosod fel bod dysgwyr yn eistedd ochr yn ochr (nid yn wynebu ei gilydd) – mewn gwersi ac yn y neuadd
- Bwriedir gweithredu system hybrid ar gyfer cyrsiau cyd-weithiol yn y 6ed dosbarth
- Ni chaniateir i fyfyrwyr Bl.12 a 13 adael y safle oni bai eu bod yn gadael ar ôl gwers 4 os nad oes gwersi ganddynt yn y prynhawn
- Os bydd rhywun yn dangos symptomau yn ystod y diwrnod ysgol, bydd rhaid i rieni fod ar gael i'w casglu yn syth

**Amserlen y Dydd**

| CA3 | |
|---|---|
| 8:40 – 9:30 | Gwers 1 |
| 9:30 – 10:20 | Gwers 2 |
| 10:20 – 10:40 | Sesiwn Tiwtor |
| 10:40 – 10:55 | Egwyl |
| 10:55 – 11:45 | Gwers 3 |
| 11:45 – 12:35 | Gwers 4 |
| 12:35 – 13:20 | **Cinio*** |
| 13:20 – 14:10 | Gwers 5 |
| 14:10 – 15:00 | Gwers 6 |
| 15:00 | Diwedd y dydd |

| CA4-5 | |
|---|---|
| 8:40 – 9:30 | Gwers 1 |
| 9:30 – 10:20 | Gwers 2 |
| 10:20 – 10:35 | Egwyl |
| 10:35 – 10:55 | Sesiwn Tiwtor |
| 10:55 – 11:45 | Gwers 3 |
| 11:45 – 12:35 | Gwers 4 |
| 12:35 – 13:20 | **Cinio*** |
| 13:20 – 14:10 | Gwers 5 |
| 14:10 – 15:00 | Gwers 6 |
| 15:00 | Diwedd y dydd |

| | |
|---|---|
| ***12:35 – 12:55** | Mynediad ffreutur Bl. 7 / Bl. 10 / Bl. 11 |
| ***13:00 – 13:20** | Mynediad ffreutur Bl. 8 / Bl. 9 / CA5 |

**<u>Gwisg Ysgol</u>**

Disgwylir i bob dysgwr wisgo gwisg ysgol er mwyn cadw'r safonau disgwyliedig ac er mwyn dathlu ethos ac hunaniaeth yr ysgol. Atgoffir chi o bolisi'r ysgol (manylion i'w cael yma https://www.yggllangynwyd.cymru/gwisg-ysgol/).

Oes modd nodi yn benodol:

- Dim gemwaith o gwbl yn CA3 a CA4 gan gynnwys clustdlysau / tlysau trwyn o unrhyw fath
- Dim colur (gan gynnwys ewinedd / acrylics)
- Dim lliw gwallt annaturiol a rhaid bod yn steil synhwyrol
- Dim trowsus tynn / leggings
- Dim sgertiau byrion
- Esgidiau lledr (dim treinyrs / bŵts)

YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
POST.YGGLLANGYNWYD@BRIDGEND.GOV.UK
WWW.YGGLLANGYNWYD.CYMRU
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

**Gwisg Addysg Gorfforol**
Ar ddiwrnodau pan mae dysgwyr â gwers Addysg Gorfforol, rhaid iddynt ddod i'r ysgol *yng ngwisg addysg gorfforol swyddogol – gan gynnwys hwdis swyddogol yr ysgol yn unig*. Gofynnir iddynt ddod â'u gwisg ysgol i newid yn dilyn y wers mewn achos o dywydd garw.

**Lluniaeth**
Bydd dewis o fwyd oer a chynnes ar gael yn ystod amser egwyl a chinio yn ôl yr arfer i'w brynu o'r ffreutur.
Fel o'r blaen, bydd rhaid sicrhau bod arian wedi cael ei lan lwytho o flaenllaw (gweler Parent Pay ar wefan yr ysgol), gan na fydd peiriant arian ar gael i fewnbynnu arian parod.

**Profion LFT**
Nid oes canllawiau clir eto wedi'u rhannu gyda ni fel ysgolion os bydd dosbarthiad o brofion yn cael eu rhannu â dysgwyr. Os bydd hwn yn parhau, bydd yr ysgol yn eich hysbysu yn y flwyddyn ysgol newydd.

**Ymwelwyr â'r Ysgol**
Er mwyn rheoli nifer y bobl sydd ar y safle ar yr un pryd, bydd rhaid gwneud apwyntiad o flaen llaw os am gyfarfod ag aelod o staff. Disgwylir i bob ymwelydd i'r ysgol gwisgo mwgwd.

**Hylendid**
Lleolir gorsafoedd diheintio ym mhob ystafell ddysgu ac wrth bob mynedfa. Disgwylir i ddysgwyr a staff eu defnyddio'n rheolaidd wrth symud o gwmpas y safle. Bydd cyfrifoldeb ar ddysgwyr i lanhau eu hardaloedd gweithio. Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth wrth atgoffa eich plant am bwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol a chadw at y rheoliadau glendid.

**Partneriaeth Gwynllyw**
Fel y gwyddoch, mi ydw i wedi bod yn rhannu fy amser rhwng Llangynwyd a chefnogi Ysgol Gyfun Gwynllyw ym Mhont-y-pŵl ers Hydref 2020. Bydd y gwaith hwn yn parhau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd wrth i Wynllyw benodi Pennaeth newydd. Pan ddaw'r gwaith hwn i ben, byddaf yn dychwelyd yn llawn amser i Langynwyd.

Hoffwn i gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r tîm o staff a'n dysgwyr am eu holl waith trwy gydol y flwyddyn ddigynsail hon. Pob dymuniad da i'r staff hynny sydd yn ein gadael ni eleni ac yn cychwyn ar her newydd.

Diolch yn fawr am eich cyd-weithrediad ac edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.

Cofion,
Mr Meurig Jones
Prifathro



Eco-Sgolion Eco-Schools
Marc Gyrfa Cymru Careers Wales Mark
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
INVESTORS IN FAMILIES BUDDSODDWYR MEWN TEULUOEDD
LLWYDDIANNUS ARWEINIOL NERTHOL